YSTADEGAU, DOGFENNU

# Gwahaniaethau cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd yn iechyd, addysg a statws economaidd (Cyfrifiad 2021)

Amcangyfrifon poblogaeth o gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd pobl yng Nghymru yn ôl oedran, rhyw, iechyd cyffredinol, anabledd, lefel uchaf o gymhwyster, a statws gweithgarwch economaidd.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 6 Mawrth 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 6 Mawrth 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


**Cyflwyniad**

**Prif bwyntiau**

**Oedran a rhyw**

**Iechyd cyffredinol**

**Anabledd**

**Lefel uchaf o gymhwyster**

**Statws gweithgarwch economaidd**

**Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg**

**Manylion cyswllt**



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ddata Cyfrifiad 2021 ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd pobl yng Nghymru a Lloegr ddydd Gwener 6 Ionawr 2023 mewn dau fwletin:

- **Cyfeiriadedd rhywiol, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021 (SYG)**
- **Hunaniaeth o ran rhywedd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021 (SYG)**

Ar yr un diwrnod, gwnaethom gyhoeddi ein crynodeb pwnc **Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021)**.

Mae'r bwletin ystadegol hwn yn cynnwys data cryno ychwanegol ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd yn ôl amrywiaeth o ganlyniadau economaidd-gymdeithasol ar gyfer unigolion a oedd yn breswylwyr arferol yng Nghymru ar adeg y cyfrifiad, sef 21 Mawrth 2021. Mae'n dweud wrthym sut roedd y canlyniadau hyn yn amrywio ar gyfer gwahanol fathau o gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd ledled Cymru. Mae'r bwletin hefyd yn cynnwys dadansoddiad yn ôl oedran a rhyw er mwyn rhoi cyd-destun. Mae'r holl ddata a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddiad yn y datganiad hwn i'w gweld ar wefan SYG o'r dudalen **Census 2021 sexual orientation and gender identity data combining multiple variables (SYG)**, a'r datganiad diweddar gan SYG, **Sexual orientation, further personal characteristics, England and Wales: Census 2021 (SYG)**.

Gofynnodd Cyfrifiad 2021 gwestiynau gwirfoddol am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd i bob preswylydd arferol 16 oed a throsodd. Dyma'r tro cyntaf i gwestiwn am y naill bwnc neu'r llall gael ei ofyn yn y cyfrifiad.

Gofynnwyd i bobl “Pa un o’r canlynol sy’n disgrifio orau eich cyfeiriadedd rhywiol?”. Y gwahanol fathau o gyfeiriadedd rhywiol y gallai pobl ddewis o'u plith oedd:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- “Heterorywiol/Strêt”
- “Hoyw neu Lesbiaidd”
- “Deurywiol/Bi”
- “Cyfeiriadedd rhywiol arall”

Cafodd ymatebwyr a ddewisodd “Cyfeiriadedd rhywiol arall” eu gwahodd i ysgrifennu pa gyfeiriadedd rhywiol roeddent yn uniaethu ag ef. Fodd bynnag, at ddibenion y datganiad hwn, rydym wedi defnyddio'r term “cyfeiriadeddau rhywiol eraill” i ddisgrifio'r grŵp hwn. I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr **adran gwybodaeth am ansawdd a methodoleg**.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd “Ydy’r rhywedd rydych chi’n uniaethu ag ef yr un peth â’r rhyw a gofrestrwyd pan gawsoch chi eich geni?” ac roedd modd iddynt naill ai ddewis “Ydy” neu ddewis “Nac ydy” ac ysgrifennu eu hunaniaeth benodol o ran rhywedd.

I gael rhagor o wybodaeth am gwestiynau Cyfrifiad 2021 ac arweiniad ar ddehongli'r data yn y bwletin hwn, gweler yr **adran gwybodaeth am ansawdd a methodoleg**.

Ym mis Chwefror 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei dogfen **Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru** sy'n cynnwys rhestr o dermau sy'n ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd. Mae terminoleg ym maes LHDTC+ yn parhau i ddatblygu yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae Llywodraeth Cymru yn croesawu unrhyw adborth ar y derminoleg a ddefnyddir ar gyfer y pwnc hwn. Gweler y **cynllun gweithredu** i gael gwybodaeth am sut i roi adborth ar derminoleg. Mae'r bwletin hwn yn defnyddio terminoleg sy'n cyd-fynd â'r cwestiynau ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd a ofynnwyd yng Nghyfrifiad 2021.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Prif bwyntiau

## Cyfeiriadedd rhywiol

- Roedd cyfran uwch o bobl iau na phobl hŷn yn ystyried eu hunain yn “Hoyw neu Lesbiaidd”, “Deurywiol/Bi” neu gyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol ychwanegol (LHD+).
- Roedd benywod yn fwy tebygol o ystyried eu hunain yn LHD+ (3.3%) na dynion (2.7%).
- Pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Hoyw neu Lesbiaidd” oedd y lleiaf tebygol o fod mewn iechyd cyffredinol gwael neu wael iawn (7.6%) a'r rhai a oedd yn uniaethu â chyfeiriadeddau rhywiol eraill oedd y mwyaf tebygol (12.6%).
- Dywedodd traean (33.8%) o'r bobl a oedd yn ystyried eu hunain yn LHD+ eu bod yn anabl (yn unol â diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010), o gymharu â chwarter (24.0%) y bobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt”.
- Pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt” oedd y mwyaf tebygol o fod heb gymwysterau ffurfiol (19.5%), a phobl a nododd “Deurywiol/Bi” oedd y lleiaf tebygol (7.4%).
- Pobl a nododd “Deurywiol/Bi” oedd y mwyaf tebygol o fod yn ddi-waith (8.5%), a phobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt” oedd y lleiaf tebygol (3.9%).

## Hunaniaeth o ran rhywedd

- Roedd canran y bobl a ddywedodd fod eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni yn gostwng yn ôl oedran.
- Menywod traws oedd y mwyaf tebygol o ddweud bod eu hiechyd cyffredinol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

yn wael neu'n wael iawn (14.5%).
- Roedd pobl a ddywedodd fod eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni yn fwy tebygol o fod yn anabl (38.9%) na'r rhai a ddywedodd fod eu hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni (24.4%).
- Pobl yn y grŵp ‘hunaniaeth ychwanegol o ran rhywedd’ oedd y mwyaf tebygol (39.0%) a nodi bod ganddynt gymhwyster Lefel 4+ (sy'n cynnwys lefel gradd).
- Dywedodd 51.4% o'r bobl 16 oed a throsodd yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni eu bod yn economaidd anweithgar, o gymharu â 42.4% o'r bobl yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni.

# Oedran a rhyw

Mae strwythurau oedran poblogaeth yr amrywiol grwpiau cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd yn amrywio, a dylid ystyried effaith hyn wrth ddehongli'r canfyddiadau a gyflwynir yn y datganiad hwn. Felly, lle y bo modd, rydym wedi rhannu'r nodweddion yn ôl oedran er mwyn dangos y wybodaeth gyd-destunol hon.

## Cyfeiriadedd rhywiol

Term ambarél sy'n cwmpasu hunaniaeth rywiol, atyniad, perthnasoedd, ac ymddygiad yw cyfeiriadedd rhywiol. I ymatebydd unigol, mae'n bosibl na fydd y rhain yn golygu'r un peth â'i gilydd.

Gwnaeth cyfanswm o 2.4 miliwn o breswylwyr arferol yng Nghymru (92.4% o'r preswylwyr arferol 16 oed a throsodd) ateb y cwestiwn ar gyfeiriadedd rhywiol, ac ni wnaeth 193,900 (7.6%) ateb y cwestiwn. Nid oes dadansoddiad o'r grŵp o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

bobl na wnaethant ateb y cwestiwn wedi'i gynnwys yn y datganiad hwn.

O'r preswylwyr arferol 16 oed a throsodd, roedd 3.0% yn uniaethu â chyfeiriadedd rhywiol LHD+. O fewn y grŵp hwn, disgrifiodd 1.5% eu hunain fel “Hoyw neu Lesbiaidd”, a disgrifiodd 1.2% eu hunain fel “Deurywiol/Bi”. Gwnaeth 0.3% yn rhagor ysgrifennu eu cyfeiriadedd rhywiol penodol. O'r rhain, roedd yr ymatebion mwyaf cyffredin yn cynnwys:

- “Panrywiol” (0.1%)
- “Anrhywiol” (0.1%)
- “Cwiar” (0.02%)

Nododd 0.1% yn rhagor fod ganddynt gyfeiriadedd rhywiol gwahanol heblaw'r rhai a restrir uchod.


Felly, disgrifiodd 89.4% eu hunain fel “Heterorywiol/Strêt”.

Roedd cyfran uwch o'r bobl a oedd yn ystyried eu hunain yn LHD+ yn y grwpiau oedran iau. Ymhlith y bobl rhwng 16 a 44 oed, roedd y gyfran a oedd yn ystyried eu hunain yn LHD+ yn uwch (5.5%) na chyfartaledd poblogaeth Cymru (3.0%). Ymhlith y bobl 45 oed a throsodd, roedd y gyfran yn is na'r cyfartaledd (1.2%).

Roedd benywod yn fwy tebygol o ystyried eu hunain yn LHD+ (3.3%) na dynion (2.7%). Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer grwpiau oedran iau, lle roedd benywod rhwng 16 a 24 oed fwy na dwywaith yn fwy tebygol o ystyried eu hunain yn LHD+ (10.0%) o gymharu â dynion (4.8%). Gwelir tuedd y ffordd arall ar gyfer grwpiau oedran dros 45 oed lle roedd gwrywod yn fwy tebygol o ystyried eu hunain yn LHD+.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 1: Canran y preswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd yn ystyried eu hunain yn LHD+ ym mhob grŵp oedran yn ôl rhyw, Cymru, 2021**




Disgrifiad o Ffigur 1: Mae'r siart bar clwstwr yn dangos bod grwpiau oedran iau yn fwy tebygol o uniaethu â chyfeiriadedd LHD+. Mae hefyd yn dangos mai benywod rhwng 16 a 24 oed oedd y grŵp mwyaf tebygol o uniaethu â chyfeiriadedd LHD+, gyda chanran o 10.0%.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Hunaniaeth o ran rhywedd

Mae hunaniaeth o ran rhywedd yn cyfeirio at ymdeimlad unigolyn o'i rywedd ei hun, p'un a yw rhywun yn ddyn, yn fenyw neu'n uniaethu â hunaniaeth ychwanegol, fel anneuaidd. Gall fod yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd pan gafodd yr unigolyn ei eni, neu gall fod yn wahanol.

Mae'r cwestiwn yn y cyfrifiad a'r amcangyfrifon ar gyfer hunaniaeth o ran rhywedd yn destun lefel uwch o ansicrwydd na rhai pynciau eraill. Ceir patrymau yn y data sy'n gyson â phe bai rhai ymatebwyr wedi dehongli'r cwestiwn yn wahanol i'r bwriad, er nad ydynt yn dangos hynny'n bendant. Caiff hyn ei awgrymu gan rai patrymau yn y data y gellir ystyried eu bod yn annisgwyl. Er enghraifft, roedd canran y bobl a ddywedodd fod eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni yn uwch ar gyfer pobl nad y Gymraeg na'r Saesneg oedd eu prif iaith na'r boblogaeth gyffredinol. Roedd yn uwch eto ymhlith pobl nad oeddent yn siarad Cymraeg na Saesneg yn dda o gwbl. Felly, mae bod yn arbennig o ofalus wrth ddehongli'r data. Gweler yr adroddiad **ar ansawdd data Cyfrifiad 2021 ar hunaniaeth o ran rhywedd (SYG)** am ragor o wybodaeth.

Yng Nghymru, cafwyd ymatebion i'r cwestiwn ar hunaniaeth o ran rhywedd gan 2.4 miliwn o bobl (93.7% o'r boblogaeth 16 oed a throsodd).

Dywedodd 93.3% o boblogaeth Cymru a oedd yn 16 oed a throsodd fod eu hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni ac ymatebodd 0.4% “Nac ydy”, sy'n dangos bod eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni. O blith y rhai a ymatebodd “Nac ydy”, nododd 0.08% eu bod yn ystyried eu hunain yn ddynion traws, roedd 0.07% yn ystyried eu hunain yn fenywod traws, dywedodd 0.06% eu bod yn anneuaidd, a nododd 0.2% fod eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni heb roi hunaniaeth benodol yn y lle gwag ar gyfer ysgrifennu.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Roedd canran y bobl a ddywedodd fod eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni yn gostwng yn ôl oedran. Ymhlith y bobl rhwng 16 a 24 oed, dywedodd 0.9% fod eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni, o gymharu â 0.2% o'r bobl 65 oed a throsodd. Yn y grwpiau oedran hŷn, roedd y gostyngiad hwn yn llai amlwg.

### Ffigur 2: Canran y preswylwyr arferol 16 oed a throsodd yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni, yn ôl grŵp oedran, Cymru, 2021




Disgrifiad o Ffigur 2: Mae'r siart bar yn dangos bod pobl mewn grwpiau oedran iau yn llawer mwy tebygol o ddweud bod eu rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Iechyd cyffredinol

Hunanasesiad o gyflwr iechyd cyffredinol person yw iechyd cyffredinol. Gofynnwyd i bobl asesu ai “Da iawn”, “Da”, “Gweddol”, “Gwael” neu “Gwael iawn” oedd eu hiechyd. Nid yw'r asesiad hwn yn seiliedig ar iechyd unigolyn dros unrhyw gyfnod penodol o amser. Ceir rhagor o wybodaeth yn **safon wedi'i chysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth**. At ddibenion y datganiad hwn, rydym wedi cyfuno'r categorïau fel a ganlyn: “da iawn neu dda”; “gweddol”, a “gwael neu wael iawn”.

## Cyfeiriadedd rhywiol

Am y rhan fwyaf o'r hyn sy'n weddill o'r datganiad hwn, byddwn yn rhannu'r grŵp LHD+ yn unol â chodau'r cyfrifiad. Fodd bynnag, yma rydym wedi defnyddio'r term “cyfeiriadeddau rhywiol eraill” i ddisgrifio'r grŵp hwn. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr **adran gwybodaeth am ansawdd a methodoleg**.


O blith y bobl 16 oed a throsodd, roedd y rhai a oedd yn ystyried eu hunain yn LHD+ fymryn yn fwy tebygol o ddweud bod eu hiechyd cyffredinol yn wael neu'n wael iawn (8.3%) na'r bobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt” (8.0%). Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y rhai a oedd yn ystyried eu hunain yn LHD+ yn tueddu i fod yn iau na'r cyfartaledd a bod **pobl iau yn fwy tebygol o ddweud bod eu hiechyd yn dda iawn neu'n dda (SYG)**.

Pobl a oedd yn uniaethu â chyfeiriadeddau rhywiol eraill oedd y mwyaf tebygol o ddweud bod eu hiechyd cyffredinol yn wael neu'n wael iawn (12.6%), a phobl a oedd yn uniaethu â chyfeiriadedd “Deurywiol/Bi” (8.3%) a “Heterorywiol/Strêt” (8.0%) oedd yr ail a'r trydydd mwyaf tebygol. Pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Hoyw neu Lesbiaidd” oedd y lleiaf tebygol o fod mewn iechyd cyffredinol gwael neu wael iawn (7.6%).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Hoyw neu Lesbiaidd” oedd y mwyaf tebygol o fod mewn iechyd da neu dda iawn (77.6%), a phobl a oedd yn uniaethu â chyfeiriadeddau rhywiol eraill oedd y lleiaf tebygol (66.2%).

### Ffigur 3: Cyfran y preswylwyr arferol 16 oed a throsodd yn ôl cyfeiriadedd rhywiol ac iechyd cyffredinol, Cymru, 2021




Disgrifiad o Ffigur 3: Mae'n dangos mai pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Hoyw neu Lesbiaidd” oedd y mwyaf tebygol o ddweud bod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn ac mai pobl a oedd yn uniaethu â chyfeiriadeddau rhywiol eraill oedd y lleiaf tebygol.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

Roedd cyfran y bobl a ddywedodd fod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn yn gostwng yn ôl oedran ar gyfer pob cyfeiriadedd rhywiol, ond roedd y gostyngiad yn llai amlwg ymhlith pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn LHD+ o gymharu â'r grŵp “Heterorywiol/Strêt”.

Ymhlith y bobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt”, roedd canran y rhai a ddywedodd fod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn yn gostwng bron i 47 o bwyntiau canran o 92.6% ar gyfer pobl rhwng 16 a 24 oed, i 45.7% ar gyfer pobl dros 74 oed, o gymharu â gostyngiad o ychydig dros 27 o bwyntiau canran o 80.5% ar gyfer pobl rhwng 16 a 24 oed i 53.2% ar gyfer pobl dros 74 oed ymhlith y bobl a oedd yn ystyried eu hunain yn LHD+.


Fodd bynnag, roedd canran y bobl a ddywedodd fod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn yn is ar gyfer pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn LHD+ ym mhob grŵp oedran, ac eithrio'r grŵp dros 74 oed.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 4: Canran y preswylwyr arferol 16 oed a throsodd a ddywedodd fod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn yn ôl cyfeiriadedd rhywiol a grŵp oedran, Cymru, 2021 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 4: Mae'r siart bar clwstwr yn dangos bod canran y bobl a ddywedodd fod eu hiechyd yn dda yn gostwng yn ôl oedran a bod y bobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt” yn fwy tebygol o ddweud bod eu hiechyd yn dda na'r rhai a oedd yn ystyried eu hunain yn LHD+ ym mhob grŵp oedran heblaw pobl 75 oed a throsodd.

[Nodyn 1]: Mae'r data sylfaenol ar gyfer y grwpiau LHD+ yn y grŵp oedran 74 oed a throsodd yn cynnwys rhai gwerthoedd cudd. Felly, mae'n bosibl nad yw'r canrannau ar gyfer y grŵp oedran hwn yn gwbl gynrychioliadol o'r boblogaeth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gyfan y mae'n ei disgrifio.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

## Hunaniaeth o ran rhywedd

Am y rhan fwyaf o'r hyn sy'n weddill o'r datganiad hwn, bydd y codau hunaniaeth o ran rhywedd ar gyfer y bobl y mae eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni wedi'u rhannu'n grwpiau lefel uchel:

- Hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd
- Hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd,
    - Heb roi hunaniaeth benodol
    - Dyn traws
    - Menyw draws
    - Hunaniaeth ychwanegol o ran rhywedd (gan gynnwys “anneuaidd”)

Dylid nodi bod y rhannau o'r datganiad hwn sy'n trafod rhywedd yn canolbwyntio ar y cwestiwn ar hunaniaeth o ran rhywedd yn benodol. Felly, nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys data ar ryw.

Roedd pobl a ddywedodd fod eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni yn fwy tebygol o ddweud bod eu hiechyd cyffredinol yn wael neu'n wael iawn (12.8%) na'r rhai a ddywedodd fod eu hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth (8.0%). Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y rhai yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni yn tueddu i fod yn iau na'r cyfartaledd a bod pobl iau yn llai tebygol o fod mewn iechyd cyffredinol gwael neu wael iawn.


Menywod traws oedd y mwyaf tebygol o ddweud bod eu hiechyd cyffredinol yn wael neu'n wael iawn (14.5%), ac yna bobl a oedd yn uniaethu â hunaniaeth ychwanegol o ran rhywedd (14.0%).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Pobl a ddywedodd fod eu rhywedd yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni oedd y mwyaf tebygol o ddweud bod eu hiechyd yn dda neu'n dda iawn (75.3%), a'r rhai sy'n uniaethu â hunaniaeth ychwanegol o ran rhywedd oedd y lleiaf tebygol (59.7%).

Roedd dynion traws yn fwy tebygol o ddweud bod eu hiechyd cyffredinol yn dda iawn neu'n dda (67.4%) o gymharu â menywod traws (62.9%)

### Ffigur 5: Cyfran y preswylwyr arferol 16 oed a throsodd yn ôl hunaniaeth o ran rhywedd ac iechyd cyffredinol, Cymru, 2021




Disgrifiad o Ffigur 5: Mae'r siart bar pentwr gyfrannol yn dangos mai pobl yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd pan

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gawsant eu geni oedd y mwyaf tebygol o fod mewn iechyd da neu dda iawn, ac mai menywod traws oedd y mwyaf tebygol o fod mewn iechyd gwael neu wael iawn.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

# Anabledd

Gofynnwyd i breswylwyr arferol a oedd ganddynt gyflwr neu salwch corfforol neu feddyliol hirdymor (a oedd wedi para neu'n debygol o bara am 12 mis neu fwy), ac i ba raddau roedd hyn yn cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae ymatebwyr a ddywedodd fod ganddynt gyflwr iechyd corfforol neu iechyd meddwl hirdymor a oedd yn cyfyngu 'ychydig' neu 'yn fawr' ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi cael eu diffinio fel pobl anabl.

Nod y dull a ddefnyddiwyd yng Nghyfrifiad 2021 yw casglu data sy'n cyd-fynd yn agos â'r diffiniad o anabledd yn y **Ddeddf Cydraddoldeb (2020) (Gov.UK)**. Caiff hyn ei lywio gan y model meddygol o anabledd sy'n diffinio pobl yn anabl yn ôl eu hamhariad. Yn 2002, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru'r **model cymdeithasol o anabledd (Anabledd Cymru)**. Mae'r model hwn yn nodi ffordd wahanol o ystyried anabledd – yn hytrach na diffinio pobl yn anabl yn ôl eu hamhariad (fel yn y model meddygol o anabledd), mae pobl ag amhariadau yn anabl oherwydd y rhwystrau ffisegol, sefydliadol ac o ran agwedd a gaiff eu creu gan gymdeithas.

Mae'r data sydd wedi'u cynnwys yn yr adran hon yn defnyddio diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) o anabledd, ac felly'n adlewyrchu'r model meddygol o anabledd. Fodd bynnag, lle y bo'n bosibl, rydym wedi defnyddio iaith sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol o anabledd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cyfeiriadedd rhywiol

Roedd traean (33.8%) o'r bobl a oedd yn ystyried eu hunain yn LHD+ yn anabl, o gymharu â chwarter (24.0%) y bobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt”. Y prif reswm dros y gwahaniaeth hwn yw bod cyfran fwy o'r bobl anabl y mae eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu ychydig ymhlith y bobl a nododd eu bod yn LHD+ (21.3%) o gymharu â'r bobl a nododd eu bod yn “Heterorywiol/Strêt” (12.5%).

Unwaith eto, mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y rhai a oedd yn ystyried eu hunain yn LHD+ yn tueddu i fod yn iau, a bod pobl anabl yn fwy tebygol o fod yn hŷn na'r cyfartaledd. Ceir cryn dystiolaeth o'r cysylltiad rhwng anabledd ac oedran. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn ein **datganiad cyfrifiad ar bobl anabl yng Nghymru**.

Pobl a oedd yn uniaethu â chyfeiriadeddau rhywiol eraill oedd y mwyaf tebygol o nodi eu bod yn anabl (46.4%), ac yna “Deurywiol/Bi” (39.2%), “Hoyw neu Lesbiaidd” (26.9%) ac, yn olaf, “Heterorywiol/Strêt” (24.0%).


Er eu bod yn fwy tebygol o fod yn anabl yn gyffredinol, roedd pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Hoyw neu Lesbiaidd” yn llai tebygol o ddweud bod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu'n fawr (11.1%) na phobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt” (11.4%).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 6: Canran y bobl anabl 16 oed a throsodd yn ôl cyfeiriadedd rhywiol, Cymru, 2021**




Disgrifiad o Ffigur 6: Mae'r siart bar pentwr hon yn dangos bod pobl “Heterorywiol/Strêt” a'r bobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Hoyw neu Lesbiaidd” yn llai tebygol o fod yn anabl, a bod pobl a oedd yn uniaethu â chyfeiriadedd “Deurywiol/Bi” a chyfeiriadedd rhywiol LHD+ ychwanegol yn fwy tebygol o fod yn anabl.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

Ymhlith y bobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt”, roedd cyfran

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

y rhai sy'n anabl yn cynyddu yn ôl oedran, o 12.5% ar gyfer pobl rhwng 16 a 24 oed, i 48.1% ar gyfer pobl dros 74 oed. Mae'r newid hwn yn llai amlwg ar gyfer pobl LHD+, lle roedd cyfran lawer uwch o bobl anabl yn y grwpiau oedran iau. Mae'r ganran ar gyfer LHD+ yn gostwng i ddechrau o 34.9% ar gyfer pobl rhwng 16 a 24 oed, i 30.7% ar gyfer pobl rhwng 35 a 44 oed, cyn cynyddu i 45.5% ar gyfer pobl dros 74 oed.


Roedd pobl a oedd yn uniaethu â chyfeiriadedd rhywiol LHD+ yn fwy tebygol o fod yn anabl na phobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt” ym mhob grŵp oedran ac eithrio pobl dros 74 oed.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 7: Canran y bobl anabl 16 oed a throsodd yn ôl cyfeiriadedd rhywiol ac oedran, Cymru, 2021




Disgrifiad o Ffigur 7: Mae'r siart bar clwstwr hon yn dangos bod anabledd yn cynyddu'n sydyn yn ôl oedran ar gyfer pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt”, ond bod y cynnydd hwn yn fwy graddol ar gyfer pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn LHD+, lle mae cyfran uwch o bobl anabl yn y grwpiau oedran iau.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Hunaniaeth o ran rhywedd

Roedd pobl a ddywedodd fod eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni yn fwy tebygol o fod yn anabl (38.9%) na'r rhai a ddywedodd fod eu hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni (24.4%).


Yn y grŵp o bobl yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni, y rhai a oedd yn uniaethu â hunaniaeth ychwanegol o ran rhywedd oedd y mwyaf tebygol o fod yn anabl (59.3%), ac yna fenywod traws (42.9%) a dynion traws (39.7%), a'r rhai na wnaethant ysgrifennu hunaniaeth benodol o ran rhywedd oedd y lleiaf tebygol o fod yn anabl (24.3%).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 8: Canran y bobl anabl 16 oed a throsodd yn ôl hunaniaeth o ran rhywedd, Cymru, 2021**




Disgrifiad o Ffigur 8: Mae'r siart bar pentwr hon yn dangos mai pobl a oedd yn uniaethu â hunaniaeth ychwanegol o ran rhywedd oedd y mwyaf tebygol o fod yn anabl, ac mai'r bobl yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

a gofrestrwyd pan gawsant eu geni ond na wnaethant ysgrifennu hunaniaeth benodol o ran rhywedd oedd y lleiaf tebygol.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

## Lefel uchaf o gymhwyster

Gofynnwyd i breswylwyr arferol 16 oed a throsodd yng Nghymru gofnodi unrhyw gymwysterau roeddent wedi'u hennill erioed yng Nghymru neu yn unrhyw le arall, hyd yn oed os nad oeddent yn eu defnyddio erbyn hyn. Defnyddiwyd hyn i gyfrifo'r lefel uchaf o gymhwyster gan ddefnyddio'r categorïau canlynol:

- Dim cymwysterau: Dim cymwysterau ffurfiol
- Lefel 1: rhwng 1 a 4 cymhwyster TGAU (h.y. gradd A* i C neu radd 4 ac uwch) ac unrhyw gymwysterau TGAU eraill ar raddau eraill, Bagloriaeth Cymru – Sylfaen, neu gymwysterau cyfatebol.
- Lefel 2: 5 neu fwy o gymwysterau TGAU (gradd A* i C neu radd 4 ac uwch), Bagloriaeth Cymru – Canolraddol, neu gymwysterau cyfatebol.
- Lefel 3: 2 neu fwy o gymwysterau Safon Uwch, Bagloriaeth Cymru – Uwch, neu gymwysterau cyfatebol.
- Lefel 4 neu uwch: Tystysgrif Genedlaethol Uwch, Diploma Cenedlaethol Uwch, gradd baglor, neu gymwysterau ôl-raddedig.
- Prentisiaethau
- Arall: Cymwysterau eraill, ar lefel anhysbys.

Mae lefelau 1 i 3 wedi'u cyfuno'n un grŵp ac mae prentisiaethau wedi'u cynnwys yn y categori “Arall” at ddiben y bwletin hwn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cyfeiriadedd rhywiol

Dywedodd ychydig yn llai nag un rhan o ddeg (8.4%) o bobl LHD+ nad oedd ganddynt gymwysterau ffurfiol, o gymharu ag un rhan o bump (19.5%) o bobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt”.

Pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt” oedd y mwyaf tebygol o fod heb gymwysterau ffurfiol (19.5%), wedyn pobl a oedd yn uniaethu â chyfeiriadeddau rhywiol eraill (11.2%) a phobl “Hoyw neu Lesbiaidd” (8.7%) ac, yn olaf, y rhai a nododd “Deurywiol/Bi” oedd y lleiaf tebygol (7.4%).

Pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Hoyw neu Lesbiaidd” oedd y mwyaf tebygol (43.4%) o feddu ar gymhwyster ar Lefel 4 neu uwch (sy'n cynnwys lefel gradd), wedyn y rhai a oedd yn uniaethu â chyfeiriadeddau rhywiol eraill (38.6%), “Deurywiol/Bi” (36.8%) ac, yn olaf, “Heterorywiol/Strêt” (31.7%).


Pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt” oedd y mwyaf tebygol (8.3%) o feddu ar gymhwyster yn y categori “Arall” (sy'n cynnwys prentisiaethau), a'r rhai a nododd “Deurywiol/Bi” oedd y lleiaf tebygol (3.3%).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 9: Cyfran y preswylwyr arferol 16 oed a throsodd yn ôl cyfeiriadedd rhywiol a'r lefel uchaf o gymhwyster, Cymru, 2021 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 9: Mae'r siart bar pentwr gyfrannol hon yn dangos bod pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn LHD+ yn llai tebygol o fod heb gymwysterau ffurfiol, ac yn fwy tebygol o fod â chymwysterau ar lefel gradd neu uwch na'r rhai yn y grŵp “Heterorywiol/Strêt”.

[Nodyn 1]: Mae prentisiaethau wedi'u cynnwys yn y categori “Arall”.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Roedd canran y bobl heb gymwysterau ffurfiol yn cynyddu yn ôl oedran ar gyfer pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn LHD+ ac yn “Heterorywiol/Strêt”. Ar y cyfan, roedd canran y bobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt” ac nad oedd ganddynt gymwysterau ffurfiol yn cynyddu o 11.4% ar gyfer pobl rhwng 16 a 24 oed i 44.6% ar gyfer pobl dros 74 oed. Ymhlith y bobl a oedd yn ystyried eu hunain yn LHD+, roedd canran y bobl heb gymwysterau ffurfiol yn cynyddu o 6.8% ar gyfer pobl rhwng 16 a 24 oed i 29.9% ar gyfer pobl dros 74 oed.


Roedd canran y bobl heb gymwysterau ffurfiol yn uwch ar gyfer y bobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt” ym mhob grŵp oedran o gymharu â phobl a oedd yn ystyried eu hunain yn LHD+.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 10: Canran y preswylwyr arferol 16 oed a throsodd heb ddim cymwysterau ffurfiol yn ôl cyfeiriadedd rhywiol ac oedran, Cymru, 2021 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 10: Mae'r siart bar clwstwr hon yn dangos bod dosbarthiad y data yn ôl oedran yn debyg ar gyfer y ddau grŵp cyfeiriadedd rhywiol, ond bod canran y bobl heb gymwysterau yn is ar gyfer pobl LHD+ ym mhob grŵp oedran.

[Nodyn 1]: Mae'r data sylfaenol ar gyfer y grwpiau LHD+ yn y grwpiau oedran 65 i 74 oed a 74 oed a throsodd yn cynnwys rhai gwerthoedd cudd. Felly, mae'n bosibl nad yw'r canrannau ar gyfer y grwpiau oedran hyn yn gwbl gynrychiadol o'r boblogaeth gyfan y maent yn ei disgrifio.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

## Hunaniaeth o ran rhywedd


Dywedodd chwarter (24.6%) y bobl yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni nad oedd ganddynt gymwysterau ffurfiol, o gymharu ag un rhan o bump (19.2%) o'r bobl yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni.

Pobl yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni ond na wnaethant ysgrifennu hunaniaeth benodol oedd y mwyaf tebygol o fod heb gymwysterau ffurfiol (39.2%), wedyn dynion traws (21.8%), menywod traws (20.6%) a phobl yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni (19.2%). Pobl a oedd yn uniaethu â hunaniaeth ychwanegol o ran rhywedd oedd y lleiaf tebygol o fod heb gymwysterau ffurfiol (5.8%).

Mae cyfran y bobl â chymhwyster ar Lefel 4 neu uwch (gan gynnwys lefel gradd) yn groes i'r duedd ar gyfer pobl heb gymwysterau, gan mai'r rhai yn y grŵp hunaniaeth ychwanegol o ran rhywedd yw'r mwyaf tebygol o feddu ar gymhwyster Lefel 4+ (39.0%), a phobl yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni ond na wnaethant ysgrifennu hunaniaeth benodol o ran rhywedd oedd y lleiaf tebygol (20.7%).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 11: Cyfran y preswylwyr arferol 16 oed a throsodd yn ôl hunaniaeth o ran rhywedd a'r lefel uchaf o gymhwyster, Cymru, 2021




Disgrifiad o Ffigur 11: Mae'r siart bar pentwr gyfrannol hon yn dangos mai pobl a oedd yn uniaethu â hunaniaeth ychwanegol o ran rhywedd oedd y lleiaf tebygol o fod heb gymwysterau, a'r mwyaf tebygol o feddu ar gymwysterau Lefel 4 neu


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

uwch.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

## Statws gweithgarwch economaidd

Holwyd preswylwyr arferol 16 oed a throsodd am eu statws gweithgarwch economaidd. Roedd y cwestiynau'n gofyn a oedd unigolyn yn gweithio neu'n chwilio am waith yn ystod yr wythnos cyn Cyfrifiad 2021. Yn y dadansoddiad hwn, mae tri phrif fath o statws gweithgarwch economaidd rydym yn edrych arnynt:

- Yn economaidd weithgar: Cyflogedig (naill ai fel gweithiwr cyflogedig neu'n hunangyflogedig)
- Yn economaidd weithgar: Pobl ddi-waith (pobl sy'n chwilio am waith i ddechrau o fewn pythefnos, neu'n aros i ddechrau swydd a oedd wedi'i chynnig a'i derbyn)
- Economaidd anweithgar (pobl nad oedd ganddynt swydd rhwng 15 Mawrth a 21 Mawrth 2021 ac nad oeddent wedi chwilio am waith rhwng 22 Chwefror a 21 Mawrth 2021, neu na allent ddechrau gweithio o fewn pythefnos)

Nid oedd categori ar wahân ar gyfer myfyrwyr, a gafodd eu cynnwys yn un o'r categorïau hyn yn dibynnu ar eu gweithgarwch economaidd y tu allan i'w hastudiaethau.

Cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19), ac mae'n bosibl bod hyn wedi effeithio ar y ffordd y gwnaeth pobl ymateb. Gweler yr **erthygl Comparing Census 2021 and Labour Force Survey estimates of the labour market gan SYG** am ragor o wybodaeth am ddehongli data'r cyfrifiad ar y farchnad lafur.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cyfeiriadedd rhywiol

Ar gyfer y dadansoddiad hwn, gwnaethom edrych ar breswylwyr arferol rhwng 16 a 64 oed. Roedd pobl sy'n hŷn na'r grŵp oedran hwn yn llawer mwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar.

Dywedodd traean (32.4%) o'r bobl rhwng 16 a 64 oed a oedd yn ystyried eu hunain yn LHD+ eu bod yn economaidd anweithgar o gymharu ag ychydig dros chwarter (26.2%) y bobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt”. Mae'n bosibl mai gwahanol strwythurau oedran y ddau grŵp sy'n rhannol gyfrifol am hyn. Roedd pobl iau yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar ac roedd y rhai a oedd yn ystyried eu hunain yn LHD+ yn fwy tebygol o fod yn iau na'r cyfartaledd.


Pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Hoyw neu Lesbiaidd” (69.9%) a phobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt” (69.8%) oedd y mwyaf tebygol o fod yn gyflogedig. Roedd pobl a oedd yn uniaethu â chyfeiriadedd “Deurywiol/Bi” (52.5%) a phobl a oedd yn uniaethu â chyfeiriadeddau rhywiol eraill (49.9%) yn llai tebygol.

Pobl a oedd yn uniaethu â chyfeiriadeddau rhywiol eraill oedd y mwyaf tebygol o fod yn economaidd anweithgar (42.4%), a phobl a oedd yn uniaethu â chyfeiriadedd “Deurywiol/Bi” (38.9%) oedd yn ail. Pobl “Heterorywiol/Strêt” (26.2%) a phobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Hoyw neu Lesbiaidd” (24.9%) oedd y lleiaf tebygol o fod yn economaidd anweithgar.

Pobl a nododd “Deurywiol/Bi” oedd y mwyaf tebygol o fod yn ddi-waith (8.5%), a phobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt” oedd y lleiaf tebygol (3.9%). Yn gyffredinol, roedd gan bobl â chyfeiriadedd rhywiol LHD+ gyfradd diweithdra lawer uwch (6.9%) na phobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt” (3.9%).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 12: Cyfran y preswylwyr arferol rhwng 16 a 64 oed yn ôl cyfeiriadedd rhywiol a gweithgarwch economaidd, Cymru, 2021**




Disgrifiad o Ffigur 12: Mae'r siart bar pentwr gyfrannol hon yn dangos bod pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn "Hoyw neu Lesbiaidd" fymryn yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar na phobl a oedd yn ystyried eu hunain yn "Heterorywiol/Strêt". Pobl a oedd yn uniaethu â chyfeiriadeddau rhywiol eraill oedd y mwyaf tebygol o fod yn economaidd anweithgar.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

Mae'r dosbarthiad pobl mewn gwaith yn ôl oedran yn debyg ar gyfer pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn LHD+ a phobl a oedd yn ystyried eu hunain yn


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**


Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

“Heterorywiol/Strêt” ond, ar draws yr holl gategorïau oedran, pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt” oedd y mwyaf tebygol o fod yn gyflogedig.

Yn y grŵp oedran 16 i 24 oed y gwelir y gwahaniaeth mwyaf, lle roedd 37.3% o bobl LHD+ mewn gwaith, sef 8.4 pwynt canran yn is na phobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt” (45.7%).

### Ffigur 13: Canran y preswylwyr arferol rhwng 16 a 64 oed mewn gwaith yn ôl cyfeiriadedd rhywiol ac oedran, Cymru, 2021




Disgrifiad o Ffigur 13: Mae'r siart bar clwstwr hon yn dangos bod pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Heterorywiol/Strêt” fymryn yn fwy tebygol o fod mewn gwaith na phobl LHD+ ym mhob grŵp oedran.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

## Hunaniaeth o ran rhywedd

Ar gyfer y dadansoddiad hwn, ni fu modd inni gyfyngu'r ystod oedran i bobl rhwng 16 a 64 oed oherwydd meintiau sampl bach. Felly, mae'r data hyn yn cynnwys yr holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd yng Nghymru. Mae hyn yn wahanol i'r dadansoddiad o gyfeiriadedd rhywiol yn ôl gweithgarwch economaidd lle y defnyddiwyd yr ystod oedran 16 i 64 oed.

Yn yr un modd, oherwydd meintiau sampl bach, ni fu modd inni rannu'r data yn ôl hunaniaethau penodol o ran rhywedd. Felly, mae'r dadansoddiad hwn yn cynnwys y ddau grŵp ambarél ar gyfer y bobl a atebodd "Ydy" i'r cwestiwn ar hunaniaeth o ran rhywedd, gan ddangos bod eu hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni, a'r bobl a atebodd "Nac ydy", gan ddangos bod eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol.

Dywedodd 51.4% o'r bobl yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni eu bod yn economaidd anweithgar, o gymharu â 42.4% o'r bobl yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth.


Mae pobl yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni yn fwy tebygol o fod mewn gwaith (54.5%) na phobl yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol (41.2%). Maent hefyd yn llai tebygol o fod yn ddi-waith (3.1%) na phobl yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pa gawsant eu geni (7.3%).

Mae'n bwysig ystyried effaith gwahanol strwythurau oedran y ddau grŵp hyn. Er enghraifft, roedd pobl yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni yn fwy tebygol o fod yn iau ac yn rhan o'r boblogaeth o oedran gweithio, ac roedd pobl iau yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar. Hefyd, mae'r adran hon yn cynnwys data ar gyfer pob

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

oedran dros 15 oed, gan gynnwys pobl hŷn sydd wedi ymddeol ac sydd, felly, yn economaidd anweithgar.

### Ffigur 14: Cyfran y preswylwyr arferol 16 oed a throsodd yn ôl hunaniaeth o ran rhywedd a gweithgarwch economaidd, Cymru, 2021




Disgrifiad o Ffigur 14: Mae'r siart bar pentwr gyfrannol hon yn dangos bod pobl yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni yn llai tebygol o fod mewn gwaith, ac yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar na phobl yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

I gael gwybodaeth lawn am ansawdd a methodoleg, gweler **adroddiad y SYG ar wybodaeth am ansawdd a methodoleg (SYG)**. Ceir rhagor o wybodaeth am brosesau sicrhau ansawdd yn **y fethodoleg ar gyfer sicrhau'r ansawdd gorau posibl yn amcangyfrifon poblogaeth Cyfrifiad 2021 (SYG)**.

Cafodd llawer o'r data ar gyfeiriadedd rhywiol eu diwygio ar 1 Tachwedd 2023, gan gynnwys **datganiad blaenorol Llywodraeth Cymru ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd**. Roedd gwall prosesu yn nata gwreiddiol y cyfrifiad yn golygu bod y categori “Panrywiol” yn cynnwys ymatebion lle roedd “Cyfeiriadedd rhywiol arall” wedi cael ei ddewis heb i wybodaeth ychwanegol gael ei hysgrifennu. Ledled Cymru a Lloegr gyfan, roedd hyn yn golygu bod tua 64,000 o bobl, a ddylai fod wedi cael eu cynnwys yn y categori “Pob cyfeiriadedd rhywiol arall”, wedi cael eu hystyried yn banrywiol. Dim ond gwerthoedd ar gyfer “Panrywiol” a “Pob cyfeiriadedd rhywiol arall” a newidiwyd.

## Pandemig y coronafeirws (COVID-19)

Cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19). Mae'n bosibl y bydd hyn wedi dylanwadu ar y ffordd roedd pobl yn teimlo am eu hiechyd ac yn ei sgorio ac felly gallai fod wedi effeithio ar y ffordd y dewisodd pobl ymateb. Gall newid yn y boblogaeth mewn rhai ardaloedd adlewyrchu'r ffordd y gwnaeth y pandemig effeithio ar y breswylfa arferol a ddewiswyd gan bobl ar Ddiwrnod y Cyfrifiad. Gallai'r newidiadau hyn fod wedi bod yn rhai dros dro i rai pobl ac yn fwy hirdymor i bobl eraill.

O ganlyniad i'r pandemig, roedd Llywodraeth y DU wedi cyflwyno mesurau ffyrlo i sicrhau bod y rhai na allent weithio yn gallu parhau i gael eu cyflogi. Wrth gwblhau ffurflen Cyfrifiad 2021, gofynnwyd i'r bobl ar ffyrlo ddweud eu bod i ffwrdd o'r gwaith dros dro, ynghyd â'r rhai a oedd dan gwarantin neu'n

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

hunanynysu oherwydd y pandemig. Gallai nifer y bobl a oedd yn economaidd anweithgar fod yn uwch na'r disgwyl am ei bod yn bosibl y bydd rhai pobl a oedd ar ffyrlo wedi nodi eu bod yn economaidd anweithgar, yn hytrach nag i ffwrdd o'r gwaith dros dro. Mae rhai gwahaniaethau rhwng data Cyfrifiad 2021 ar gyflogaeth a data sy'n seiliedig ar yr Arolwg o'r Llafurlu. Caiff y gwahaniaethau hyn eu hesbonio yn yr **erthygl Comparing Census 2021 and Labour Force Survey estimates of the labour market, England and Wales, a gyhoeddwyd gan SYG**.

## Rhestr termau

Ceir rhestr lawn o dermau yng **ngeiriadur Cyfrifiad 2021 SYG**. I gael gwybodaeth am y ffordd y gwnaeth SYG ddatblygu cwestiynau Cyfrifiad 2021, gweler y **dudalen ar ddatblygu'r cwestiynau (SYG)**.

### Preswylwyr arferol

Ystyr preswylydd arferol yw unrhyw un a oedd, ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, sef 21 Mawrth 2021, yn y DU ac wedi aros neu'n bwriadu aros yn y DU am gyfnod o 12 mis neu fwy, neu a oedd â chyfeiriad parhaol yn y DU ac a oedd y tu allan i'r DU ac yn bwriadu aros y tu allan i'r DU am lai na 12 mis.

### Cyfeiriadedd rhywiol

Term ambarél sy'n cwmpasu hunaniaeth rywiol, atyniad, ac ymddygiad yw cyfeiriadedd rhywiol. I ymatebydd unigol, mae'n bosibl na fydd y rhain yn golygu'r un peth â'i gilydd. Er enghraifft, efallai y bydd rhywun sydd mewn perthynas â rhywun o'r rhyw arall hefyd yn profi atyniad at bobl o'r un rhyw, ac i'r gwrthwyneb. Mae hyn yn golygu y dylid dehongli bod yr ystadegau'n dangos sut yr ymatebodd pobl i'r cwestiwn, yn hytrach na'u bod yn dangos at bwy y mae

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ganddynt atyniad neu'n dangos eu perthnasoedd gwirioneddol.

## LHD+

Talfyriad a ddefnyddir i gyfeirio at bobl sy'n uniaethu ag opsiynau cyfeiriadedd lesbiaidd, hoyw, deurywiol, neu opsiynau cyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol eraill (er enghraifft, anrhywiol).

## Cyfeiriadeddau rhywiol eraill

Un o'r opsiynau yn holiadur Cyfrifiad 2021 ar gyfer y cwestiwn am gyfeiriadedd rhywiol oedd “Cyfeiriadedd rhywiol arall”. Roedd cyfle i ymatebwyr a ddewisodd yr opsiwn hwn ysgrifennu eu cyfeiriadedd rhywiol.

Yn seiliedig ar adborth gan gymunedau cydraddoldeb yng Nghymru, gan gynnwys cymunedau LHD+, mae termau fel “arall” yn tueddu i ganoli grŵp penodol. Er enghraifft, o ran cyfeiriadedd rhywiol, byddai'r term “arall” yn canoli heterorywioldeb fel y ‘norm’, sy'n cyfrannu at aralleiddio pobl sy'n LHD+.

Yn y datganiad hwn, rydym wedi defnyddio'r term “cyfeiriadeddau rhywiol eraill” i ddisgrifio'r grŵp hwn.

## Hunaniaeth o ran rhywedd

Mae hunaniaeth o ran rhywedd yn cyfeirio at ymdeimlad unigolyn o'i rywedd ei hun, p'un a yw rhywun yn ddyn, yn fenyw neu'n uniaethu â chategori ychwanegol, fel anneuaidd. Gall fod yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd pan gafodd yr unigolyn ei eni, neu gall fod yn wahanol. Rhaid bod yn arbennig o ofalus wrth ddehongli canlyniadau'r cyfrifiad ar hunaniaeth o ran rhywedd. Darllenwch y **wybodaeth am ansawdd data ar gyfeiriadedd rhywiol a**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**hunaniaeth o ran rhywedd ar gyfer Cyfrifiad 2021 (SYG)** cyn defnyddio'r data hyn. Gweler hefyd y datganiad ar **ansawdd data Cyfrifiad 2021 ar hunaniaeth o ran rhywedd (SYG)** am ragor o wybodaeth am yr ansicrwydd ynglŷn â newidyn hunaniaeth o ran rhywedd.

### Dyn traws

Fel arfer, rhywun a gofrestrwyd yn fenywaidd pan gafodd ei eni ond sydd bellach yn ystyried ei hun yn ddyn yw dyn traws.

### Menyw draws

Fel arfer, rhywun a gofrestrwyd yn wrywaidd pan gafodd ei eni ond sydd bellach yn ystyried ei hun yn fenyw yw menyw draws.

### Anneuaidd

Mae'n bosibl na fydd rhywun sy'n anneuaidd yn uniaethu â chategorïau deuaidd dyn a menyw. Yn y canlyniadau hyn, mae'r categori'n cynnwys pobl a nododd y term penodol “anneuaidd” neu amrywiadau ar hyn. At ddibenion y datganiad hwn, mae pobl a ddefnyddiodd dermau eraill i ddisgrifio hunaniaeth nad oedd yn perthyn i gategorïau penodol dyn na menyw, yn ogystal â phobl a oedd yn ystyried eu hunain yn anneuaidd, wedi cael eu cynnwys yn y categori “Hunaniaeth ychwanegol o ran rhywedd”.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Pobl â hunaniaeth o ran rhywedd a oedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni, ond na wnaethant roi hunaniaeth benodol

Y bobl a atebodd “Nac ydw” i'r cwestiwn “Ydy’r rhywedd rydych chi’n uniaethu ag ef yr un peth â’r rhyw a gofrestrwyd pan gawsoch chi eich geni?” ond na wnaethant ysgrifennu hunaniaeth o ran rhywedd yw'r rhain.

## Categorïau dosbarthu anabledd

Rhestrir y pedwar categori anabledd a ddadansoddir yn y bwletin hwn isod.

1. Anabl yn ôl y Ddeddf Cydraddoldeb: Gweithgareddau pob dydd wedi'u cyfyngu'n fawr
2. Anabl yn ôl y Ddeddf Cydraddoldeb: Gweithgareddau pob dydd wedi'u cyfyngu ychydig
3. Ddim yn anabl yn ôl y Ddeddf Cydraddoldeb: Â chyflwr iechyd meddwl neu iechyd corfforol hirdymor ond ni chyfyngir ar weithgareddau pob dydd
4. Ddim yn anabl yn ôl y Ddeddf Cydraddoldeb: Dim cyflyrau iechyd meddwl nac iechyd corfforol hirdymor

Noder bod categorïau 3 a 4 wedi'u huno'n un categori “Ddim yn anabl” yn y bwletin hwn.

## Statws gweithgarwch economaidd

Mae'n mesur a oedd unigolyn yn rhan weithredol o'r farchnad lafur yn ystod y cyfnod hwn. Pobl economaidd anweithgar yw'r bobl 16 oed a throsodd nad oedd ganddynt swydd rhwng 15 Mawrth a 21 Mawrth 2021 ac nad oeddent wedi chwilio am waith rhwng 22 Chwefror a 21 Mawrth 2021 neu na allent ddechrau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gweithio o fewn pythefnos. Mae'r rhestr lawn o'r 19 o gategorïau i'w gweld yn y **cofnod ar statws gweithgarwch economaidd yn y geiriadur newidynnau (SYG)**. Yn y datganiad hwn, gwnaethom gyfyngu'r oedrannau i bobl rhwng 16 a 64 oed er mwyn dadansoddi cyfeiriadedd rhywiol yn ôl gweithgarwch economaidd. Fodd bynnag, ar gyfer hunaniaeth o ran rhywedd, mae'r newidyn hwn yn cwmpasu'r holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd.

## Canrannau oedran-benodol

Mae'r dadansoddiad o hunaniaeth rywiol yn y datganiad hwn yn cynnwys canrannau oedran-benodol ac nid oes safoni yn ôl oedran wedi cael ei wneud. Mae hyn yn ein galluogi i ystyried sut y gall gwahanol strwythurau oedran ymhlith grwpiau poblogaeth effeithio ar y canlyniadau a gaiff eu harchwilio. Mae hyn yn arbennig o ddiddorol wrth archwilio hunaniaeth rywiol lle mae pobl iau yn fwy tebygol o ystyried eu hunain yn LHD+, gyda chyfrannau cynyddol fach yn y grwpiau oedran hŷn.

Er bod gwahanol strwythurau oedran yn y grwpiau hunaniaeth o ran rhywedd, a all gael effaith debyg ar y canlyniadau a gaiff eu harchwilio, ni allwn ddadansoddi'r data hyn yn ôl oedran oherwydd meintiau sampl bach.

## Statws ystadegau swyddogol

Dylai pob enghraifft o ystadegau swyddogol ddangos safonau'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae’r ystadegau swyddogol hyn wedi cael eu hachredu yn Ystadegau Swyddogol, yn unol â Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007, gan ddangos cydymffurfiaeth â'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau**.

Mae Ystadegau Gwladol yn ystadegau swyddogol achrededig sy'n cyrraedd y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

safonau o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth a welir yn y Cod Ymarfer.

Cânt eu hachredu'n Ystadegau Gwladol yn dilyn adolygiad annibynnol gan gangen reoleiddiol Awdurdod Ystadegau'r DU, sef y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir ar gyfer achredu. Os byddwn yn pryderu ynghylch a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod unrhyw bryderon â'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau ar unwaith. Gellir canslo neu atal achrediad unrhyw bryd os na chaiff y safonau uchaf eu cynnal, a'i adfer pan gaiff safonau eu hadfer.

**Cafodd Cyfrifiad 2021 ei adolygu'n annibynnol gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau ym mis Mehefin 2022**. Mae'n cydymffurfio â'r safonau dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Caiff ystadegau swyddogol achrededig eu galw'n Ystadegau Gwladol yn Neddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007.

## Datganiad o gydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein hymarfer ystadegol ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau. Y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau sy'n gosod y safonau o ddibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau y dylai pob cynhyrchydd ystadegau swyddogol gadw atynt.

Caiff ein holl ystadegau eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau er mwyn gwella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Mae'r rhain wedi'u nodi yn **Natganiad Cydymffurfiaeth** Llywodraeth Cymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae'r ystadegau swyddogol achrededig hyn yn dangos y safonau disgwyliedig mewn perthynas â dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus yn y ffyrdd canlynol.

## Dibynadwyedd

Lluniwyd yr ystadegau hyn yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2021 a gyhoeddwyd gan Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae Cyfrifiad 2021 wedi cael ei achredu fel Ystadegau Gwladol a bu'n destun **proses achredu drylwyr** gyda'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau. Gallwch ddarllen mwy am ansawdd a methodoleg data'r cyfrifiad drwy ddarllen yr **adroddiad ar wybodaeth am ansawdd a methodoleg ar gyfer Cyfrifiad 2021 (SYG).**

Daw'r tîm o ddadansoddwyr o amrywiaeth o wahanol gefndiroedd, ac maent yn dadansoddi'r data a gyflwynir mewn ffordd ddiduedd. Yn y datganiad hwn, rydym wedi cynnwys datganiad ansawdd a methodoleg er mwyn bod yn glir ac yn dryloyw ynglŷn â'n prosesau drafftio a chyhoeddi.

## Ansawdd

Cafodd y ffigurau cyhoeddedig a gyflwynir eu llunio gan ddadansoddwyr proffesiynol yn seiliedig ar y data diweddaraf a oedd ar gael a chan ddilyn dulliau gan ddefnyddio eu sgiliau dadansoddi a'u barn broffesiynol.Roedd hyn yn cynnwys gwaith dilysu annibynnol gan ystadegwyr Llywodraeth Cymru ar holl elfennau'r prosesau llunio a drafftio, yn ogystal ag adolygiad ar wahân gan gydweithwyr yn SYG.

Cyn i'r datganiad gael ei gyhoeddi, caiff ei gymeradwyo gan uwch ystadegwyr a'i gyhoeddi yn unol â'r datganiad ar gyfrinachedd a mynediad at ddata sy'n seiliedig ar elfen dibynadwyedd y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae ystadegau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yn glynu wrth y Strategaeth Rheoli Ansawdd Ystadegol sy'n ategu elfen ansawdd y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ac egwyddorion ansawdd allbynnau ystadegol y System Ystadegol Ewropeaidd.

## Gwerth

Drwy gyhoeddi'r data hyn, ein nod yw rhoi tystiolaeth i weinidogion, llunwyr polisïau a rhanddeiliaid allanol ynghylch polisi cydraddoldeb, a hysbysu'r cyhoedd yn ehangach.

Mae Cyfrifiad 2021 yn ffynhonnell gywir a chyflawn o wybodaeth am y boblogaeth. Yng nghyd-destun data ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd, mae hyn yn ein galluogi i archwilio tueddiadau ar lefel fanylach nag a fyddai'n bosibl â data arolygon fel arfer. Mae hyn yn cefnogi sefydliadau yng Nghymru i dargedu eu hadnoddau'n fwy effeithiol wrth ddarparu eu gwasanaethau.

Mae'r ystadegau a'r ffigurau wedi cael eu cyflwyno a'u cyhoeddi mewn fformat hygyrch yn unol â deddfwriaeth hygyrchedd.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn uniongyrchol ag unrhyw sylwadau am sut rydym yn bodloni'r safonau hyn. Fel arall, gallwch gysylltu â’r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau drwy e-bostio **regulation@statistics.gov.uk** neu drwy eu gwefan.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith i Gymru, Y nodau hyn yw cael Cymru lewyrchus, gydnerth, iachach, fwy cyfartal, fwy cyfrifol yn fyd-eang â

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o’r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol”) y mae’n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant, a (b) gosod copi o’r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fydd Gweinidogion Cymru yn adolygu'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Gosodwyd y dangosyddion cenedlaethol hyn gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r rhai a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratifau ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Rhagor o wybodaeth am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau yn y datganiad hwn hefyd roi naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Edward Wilkinson
E-bost: **ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SB 6/2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwahaniaethau-cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-rhywedd-yn-iechyd-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.